Gil Harris

Prif Weithredwr Dros Dro

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

6 Tachwedd 2020

Annwyl Brif Weithredwr Dros Dro,

**Adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru:**

**Trefniadau ar gyfer Penodi Uwch Staff Dros Dro – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Adnewyddu Ysbyty Glan Clwyd**

Cyfeiriaf at fy llythyr blaenorol ar 29 Medi. Fel y gwyddoch, bu'n rhaid i'r Pwyllgor ail-flaenoriaethu ei raglen waith ar gyfer y tymor hwn, ac ynghyd â'r ffaith nad oeddech ar gael ar 9 Tachwedd, fel y gofynnwyd, nid ydym yn gallu cynnig dyddiad arall i chi. O'r herwydd, byddwn yn croesawu eich sylwadau manwl ar y materion yn yr atodiad ac rwy'n edrych ymlaen at gael eich ymateb, a hynny erbyn 16 Rhagfyr.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddArchwilio@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAC@senedd.wales
0300 200 6565

ADRODDIADAU ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU:

TREFNIADAU AR GYFER PENODI UWCH STAFF DROS DRO – BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

## Dibyniaeth y Bwrdd Iechyd ar uwch staff dros dro

Er bod adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol wedi edrych ar y prosesau ynghylch pum penodiad uwch dros dro yn arbennig, mae'r Pwyllgor yn deall y bu nifer fwy o benodiadau dros dro mewn rolau uwch ar ddiwedd 2019 ac yn achos unigolion eraill a benodwyd i rolau dros dro sydd wedi symud ymlaen ers hydref 2018.

*Beth yw'r sefyllfa bresennol o ran dibyniaeth y Bwrdd Iechyd ar ddefnyddio uwch staff dros dro (niferoedd cyffredinol, y rolau dan sylw a hyd y penodiadau hyn) ac a yw'r ddibyniaeth honno wedi cynyddu neu wedi gostwng dros y 12 mis diwethaf?*

*Byddem hefyd yn croesawu eich barn ar unrhyw heriau penodol yr ydych yn eu hwynebu o hyd o ran recriwtio uwch staff a'r effaith y mae natur dros dro rhai uwch rolau wedi'i chael ar allu'r Bwrdd Iechyd i symud ymlaen.*

## Trefniadau caffael

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at faterion ynghylch diffyg cyfranogiad amserol gan staff caffael o ran gwneud penderfyniadau ynghylch penodiadau dros dro, a rhai materion eraill o ran diffyg cydymffurfio â phrosesau caffael. Yn achos y cyfarwyddwr adfer dros dro, mae'r adroddiad yn nodi bod trafodaethau wedi digwydd i sicrhau telerau ffafriol y tu allan i'r cytundeb fframwaith perthnasol.

*Pam na ofynnwyd am gyngor y tîm caffael mewn ffordd amserol, yn enwedig yn achos y cyfarwyddwr adfer dros dro, a pha gamau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u cymryd i adolygu a chryfhau ei brosesau lle bo hynny'n berthnasol, i fynd ar drywydd unrhyw gamau adfer neu i sicrhau nad yw'r materion a nodwyd yn yr achosion hyn yn arwydd o fethiannau ehangach o ran prosesau.*

## Cost/effaith y cyfarwyddwr adfer dros dro

Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gyfrannu £350,000 at gost y cyfarwyddwr adfer dros dro. Fodd bynnag,

nododd y Bwrdd Iechyd nad oedd y penderfyniad i benodi – a wnaed cyn cadarnhau'r cyllid hwnnw – yn ddibynnol ar gyllid Llywodraeth Cymru.

Roedd dwy agwedd graidd ar rôl dros dro y cyfarwyddwr adfer, sef nodi a sicrhau arbedion, ac ymsefydlu trefniadau llywodraethu a all gynnal sefyllfa well at y dyfodol. Fodd bynnag, nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ei bod yn anodd gweld beth yw'r effaith bersonol benodol y mae'r cyfarwyddwr adfer dros dro yn ei chael ar ymdrechion y Bwrdd Iechyd i adfer yn ariannol, o ystyried bod staff ar draws y sefydliad yn cyfrannu at hyn mewn sawl ffordd.

*O ystyried y pwysau ariannol ehangach ar y Bwrdd Iechyd, sut yr oedd yn bwriadu talu am y £350,000 a gafodd gan Lywodraeth Cymru tuag at gost y cyfarwyddwr adfer dros dro pe na bai hyn wedi'i gymeradwyo, a pha effaith y gallai hynny fod wedi'i chael ar feysydd gweithgarwch eraill?*

*A yw'r Bwrdd Iechyd yn dal i gredu bod y gyfradd ddyddiol a'r costau cyffredinol ar gyfer y cyfarwyddwr adfer dros dro yn cynnig gwerth da am arian i drethdalwyr Cymru?*

- *A all y Bwrdd Iechyd gyfeirio at unrhyw enghreifftiau penodol o enillion ariannol neu berfformiad y gellir eu priodoli i waith y cyfarwyddwr adfer dros dro.*
- *Pa newidiadau a wnaed, p'un ai o ran capasiti neu drefniadau llywodraethu, i sicrhau bod unrhyw fomentwm a ddaeth yn sgil y cyfarwyddwr adfer dros dro wedi'i gynnal ers i'r cyfarwyddwr adael?*

### Agenda ehangach y Bwrdd Iechyd ar gyfer adfer

*Y tu hwnt i rôl y cyfarwyddwr adfer dros dro, a yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu meintioli'r costau ychwanegol ehangach y mae wedi mynd iddynt dros y blynyddoedd diwethaf mewn ymdrech i adfer ei sefyllfa ariannol gyffredinol a/neu ei berfformiad?*

*Pryd allwn ni ddisgwyl gweld strategaeth ariannol glir a fydd yn darparu gwasanaethau iechyd sy'n gynaliadwy yn ariannol yng Ngogledd Cymru a beth yw sefyllfa'r Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn a'r rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn yn 2020-21 erbyn hyn o ystyried effaith COVID-19?*

*Gan gydnabod bod hyn yn gosod ei heriau ei hun, a oes unrhyw wersi allweddol y mae'r Bwrdd Iechyd eisoes yn eu nodi o'r ffordd y bu'n rhaid iddo ymateb i COVID-19 a allai helpu i gryfhau ei drefniadau llywodraethu a'i helpu i adfer yn y dyfodol.*

<u>ADNEWYDDU YSBYTY GLAN CLWYD</u>

### Gwerthuso ar ôl y prosiect

Cafwyd sawl adroddiad gan archwilwyr mewnol ac ymgynghorwyr annibynnol am wahanol agweddau ar y prosiect dros y chwe blynedd diwethaf ac, wrth ymateb i'r argymhellion a godwyd yn yr adroddiadau hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi trefniadau, strwythurau a phrosesau llywodraethu newydd ar waith.

*Gan fod y prosiect bellach ar ben, byddem yn croesawu trosolwg o'r gwaith 'gwerthuso ar ôl y prosiect' sydd wedi digwydd a sut rydych chi wedi mynd ati i fyfyrio am sut aeth y prosiect yn gyffredinol. Fel rhan o hyn, byddai'n ddefnyddiol deall:*

- *Pwy sydd wedi bod yn rhan o'r broses fyfyrio hon, a sut ydych chi wedi cynnwys partïon allweddol, fel y partner cadwyn gyflenwi, y cynghorydd costau allanol a Chydwasanaethau GIG Cymru?*
- *Sut ydych chi'n rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd o'r prosiect ar draws GIG Cymru?*

### Gwerth am arian

*O ystyried bod y prosiect wedi costio £60 miliwn yn fwy na'r gyllideb gymeradwy wreiddiol, a yw'r Bwrdd Iechyd yn credu bod y £171 miliwn a wariwyd ar y prosiect yn cynnig gwerth da am arian i drethdalwyr Cymru? Fel rhan o hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi'r canlynol:*

- *Sut mae'r prosiect wedi perfformio'n fwy cyffredinol yn erbyn ei amcanion ehangach?*
- *A ydych chi'n credu y gallai penderfyniad gwahanol wedi bod ynghylch y gwaith adnewyddu, fel codi ysbyty cwbl newydd ar safle arall, pe bai yna ddealltwriaeth o'r costau llawn ar y cychwyn?*

### Craffu ar achosion busnes a'u cymeradwyo

Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi '[nad] oedd unrhyw dystiolaeth o adolygiad mewnol effeithiol a chraffu ar yr achosion busnes ac ni rannwyd

canlyniadau’r broses graffu allanol gyda Bwrdd y Prosiect na Bwrdd y Bwrdd Iechyd'.

*Pa sicrwydd allwch chi ei roi i'r Pwyllgor bod achosion busnes bellach yn destun adolygiad a chraffu mewnol effeithiol cyn iddynt gael eu cymeradwyo a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru?*

- *Sut, er enghraifft, y cymhwyswyd unrhyw newidiadau o ran prosesau i achosion busnes mwy diweddar, fel prosiect seilwaith Wrecsam Maelor a phrosiect cyfalaf Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl?*

### Monitro ariannol ar brosiectau

Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at dystiolaeth o rai methiannau difrifol wrth adrodd am berfformiad ariannol y prosiect.

*Pa gamau a gymerwyd i wella monitro ariannol ac adrodd ar brosiectau cyfalaf yn y Bwrdd Iechyd, ac i osgoi ailadrodd y mathau o broblemau sydd wedi’u crynhoi ym mharagraffau 52/53 a 73 o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol?*

### Llywodraethu a rheoli prosiectau

Er bod yr adroddiad yn tynnu sylw at fethiannau o ran y prosiect hwn, mae’n galonogol bod yr Archwilydd Cyffredinol yn dweud yn ei adroddiad bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i gryfhau ei ddull o reoli a chymeradwyo prosiectau cyfalaf.

*Yn ychwanegol at unrhyw faterion penodol yr ymdrinnir â hwy uchod, pa wersi allweddol eraill y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u dysgu a sut mae'r gwersi hynny’n cael eu cymhwyso i’r trefniadau rheoli a llywodraethu ar gyfer prosiectau cyfalaf sylweddol eraill?*